

**CYNGOR SIR FYNWY**  
**NEUADD Y SIR, RHADYR, BRYNBUGA, SIR FYNWY NP15 1GA**

**DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013**

HYSBYSIR DRWY HYN yn unol ag Adrannau 41 a 43 of Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 fod Cyngor Sir Fynwy, ar ôl ymgynghori'r bobl fel sydd angen, yn cynnig yr hyn sydd wedi ei amlinellu isod:

1. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig sefydlu ysgol Cyfrwng Saesneg pob oed newydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Fynwy ar safle presennol Ysgol Uwchradd Harri'r VIII yn Hen Heol Henffordd, Y Fenni, NP7 6EP, ar gyfer bechgyn a merched rhwng 3 a 19. Bydd yr ysgol yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer plant ag anghenion niwroddatblygol a dysgu cymhleth. Y bwriad yw gweithredu'r cynnig o'r **1<sup>af</sup> Medi 2023**.

O ganlyniad i'r cynigion sydd wedi eu hamlinellu uchod:

2. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig ymatal cynnal **YSGOL UWCHRADD BRENIN HARRI'R VIII, HEN HEOL HENFFORDD, Y FENNI, NP7 6EP**. Mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Fynwy. Y bwriad yw gweithredu'r cynigion yma ar 31 Awst 2023.
3. Mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnig ymatal cynnal **YSGOL GYNRADD DERI VIEW PRIMARY, LÔN LLWYNU, Y FENNI, NP7 6AR**. Mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan Gyngor Sir Fynwy. Y bwriad yw gweithredu'r cynigion yma ar 31 Awst 2023.

Bydd y disgyblion sydd yn mynychu'r ddwy ysgol sydd yn mynd i gau yn cael eu trosglwyddo yn awtomatig i'r ysgol pob oed newydd arfaethedig oni bai bod gofalwyr/rhieni yn gwneud cais fel arall.

Roedd Cyngor Sir Fynwy wedi cynnal ymgynghoriad cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sydd yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion ac ymateb llawn Estyn, wedi ei gyhoeddi ar gyfer yr holl ymgynghoreion statudol ac mae ar gael yma -

[www.monmouthshire.gov.uk/strategicreview](http://www.monmouthshire.gov.uk/strategicreview).

Bydd yr ysgol pob oed newydd hon yn cynnig lle i 420 o ddisgyblion cynradd (4-11), gyda 60 yn cael eu derbyn bob blwyddyn i'r ysgol. Bydd yr ysgol newydd hon yn cynnig hyd at 1200 o lefydd ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd (11-16) o flwyddyn 7 i flwyddyn 11, gyda hyd at 240 yn cael eu derbyn bob blwyddyn i'r ysgol. Bydd 200 o lefydd pellach ar gael i fyfyrwyr o'r chweched dosbarth (16-19).

Bydd yr ysgol pob oed newydd hon yn cynnig darpariaeth cyn ysgol drwy sefydlu Meithrinfa sydd i'w chynnal gan Gyngor Sir Fynwy ac yn cynnig 30 o lefydd llawn amser.

Bydd yr ysgol pob oed newydd hon yn cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer plant ag anghenion niwroddatblygol a dysgu cymhleth. Y capasiti ar gyfer y ddarpariaeth hon fydd 71.

Cyngor Sir Fynwy fydd yr Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol pob oed newydd. Bydd ceisiadau ar gyfer yr ysgol newydd hon yn cael eu rheoli a'u pennu yn unol gyda Pholisi Derbyn i Ysgolion cytunedig y Cyngor.

Bwriad y Cyngor yw cynnig cludiant am ddim fel bod disgyblion yn medru teithio i'w hysgol newydd, a hynny'n unol gyda pholisi'r Cyngor ar y pryd. Y polisi presennol yw bod disgyblion yn gymwys am gludiant am ddim o'u cartrefi i'r ysgol os ydynt yn cwrdd â'r meini prawf canlynol:

- a) Maent yn mynychu'r ysgol agosaf neu sydd o fewn yr ardal dalgylch
- b) Maent yn byw mwy na milltir a hanner o'r ysgol gynradd
- c) Maent yn byw mwy na dwy filltir a hanner o'r ysgol uwchradd

O fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynnig hwn, sef **17<sup>eg</sup> Tachwedd 2021**, mae unrhyw berson yn medru gwrthwynebu'r cynigion sydd wedi eu hamlinellu o fewn yr hysbysiad hwn.

Dylid danfon unrhyw wrthwynebiad at Matthew Jones, Rheolwr Uned Mynediad, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA neu e-bostiwrch [strategicreview@monmouthshire.gov.uk](mailto:strategicreview@monmouthshire.gov.uk)

Llofnod



Dyddiad: **19<sup>eg</sup> Hydref 2021**

Paul Matthews  
Prif Weithredwr  
Ar ran Cyngor Sir Fynwy

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn ffurfio rhan o'r hysbysiad ond mae'n cael ei gynnig fel esboniad)*

### Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII

Mae Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII yn ysgol uwchradd gydaddysgol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 ac wedi ei lleoli yng ngogledd y Sir yn Y Fenni. Mae yna gapasiti o 1290 yn yr Ysgol ar hyn o bryd a 220 o lefydd yn y chweched dosbarth. Y Nifer Derbyn yw 215 a'r nifer sydd ar y gofrestr ym Medi 2020 oedd 1041

Mae adeiladau'r Ysgol Uwchradd Brenin Harri'r VIII mewn cyflwr gwael ac yn dilyn Arolwg Cyflwr yn 2020, categoriwyd adeiladau'r ysgol fel Categori Cyflwr D gyda'r gwaith cynnal a chadw sydd angen yn mynd i gostio £2.5m.



## Ysol Gynradd Deri View

Mae Ysgol Gynradd Deri View yn Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg sydd wedi ei lleoli yng ngogledd y Sir ac mae 0.5 milltir o Ysgol Brenin Harri'r VIII.

Mae yna gapasiti o 330 yn yr Ysgol ar hyn o bryd gan gynnwys meithrinfa. Y Nifer Derbyn yw 47 a'r nifer sydd ar y gofrestr ym Medi 2020 oedd 276

Mae adeilad Ysgol Deri View yn adeilad lled-fodern ac yn ac yn dilyn Arolwg Cyflwr yn 2020, categoreiddiwyd adeiladau'r ysgol fel Categori Cyflwr C+ gyda'r gwaith cynnal a chadw sydd angen yn mynd i gostio £110k.